

Llwybr Darby



Taith 4 Llwybr Darby

Taith hawdd, 2 filltir – 3.5 cilomedr, un awr

Cychwyn yn y Clwb Badminton, Cendl (SO189 109).

Croeswch dros y gylchfan gan ddilyn arwyddion am Newtown a Chwm Draw i ymuno gyda Newchurch Road – dyma gangen Rheilffordd Trefil 1796 oedd yn cludo calch o Chwareli Trefil i Waith Haearn Glyn Ebwy.




Gwaith Haearn Glyn Ebwy

Cariwch ymlaen am 1km arall i Newtown. Yma fe ddewch at gyffordd T ychydig y tu draw i'r Kings Arms. Trowch i'r dde a dilyn y ffordd i lawr at gylchfan o flaen Capel Providence (1860). Dilynwch y ffordd i mewn i Ystad Ddiwydiannol Cwm Draw. Ar ôl rhyw 250m, byddwch yn sefyll uwchben safle Gwaith Haearn Glyn Ebwy.



Cloc y Swyddfeydd Cyffredinol

AAr draws y ffordd mae Swyddfeydd Cyffredinol Glyn Ebwy, a adeiladwyd gan Gwmni Dur, Haearn a Glo Glyn Ebwy Cyf yn 1916. Mae'r adeiladau gosgeiddig hyn mewn bric coch gyda ffesin carreg mewn arddull Jacobeaidd ac mae ganddynt golofnau gwenithfaen Tysgan wedi eu gosod yn y fynedfa hanner cylch. Mae'r cloc yn ddyddiedig 1915 ac mae arysgrifen arno:



*Take Time while Time is for Time will away
Time flyeth away without delay*



Y Swyddfeydd Cyffredinol

Nesaf at y Swyddfeydd Cyffredinol roedd Tŷ Glyn Ebwy arfer sefyll, a ddisgrifiwyd yn 1844 fel un o 'Two Capital Houses, adapted for the residence of Partners or Managers'.

Sefydlwyd Gwaith Haearn Glyn Ebwy yn 1791 gan dri phartner, un ohonynt oedd Jeremiah Homfray. Yn 1792 ymunodd y Crynwyr o Fryste - Harford, Partridge & Co. gydag ef. Yn 1796 gadawodd Homfray. Adeiladwyd ail ffwrnais yn 1805, a thrydded un yn 1823 a phedwerydd yn 1839. Yn 1842 aeth yr hwch drwy'r siop yng Nghwmni Harford ond prynwyd y gwaith gan Abraham Darby yn 1844. Roedd gweithlu o 1600 yno – chwarter ohonynt yn fenywod a phlant.



Tocyn Tryc Glyn Ebwy



Ffowndri Victoria

Yng ngwaelod y dyffryn, ar y chwith, roedd Gwaith Haearn Victoria, a sefydlwyd yn 1837. Dechreuodd gynhyrchu yn 1839 a chafodd ei brynu gan gwmni Glyn Ebwy yn 1849. Erbyn hyn roedd cyfres o weithfeydd haearn yn rhedeg i lawr y dyffryn o Cendl yn y gogledd i Victoria yn y de. Aeth cwmni Glyn Ebwy trwy gyfnod o ehangu. Prynodd Abersychan (British Ironworks) yn 1852, Pentwyn yn 1857 a Gwaith Haearn Pont-y-pŵl yn 1864. Yn 1865 ffurfiodd ei hun yn gwmni cyfyngedig ac aeth i mewn i'r busnes gwneud dur.

Erbyn 1867 gosodwyd tri trosglwyddydd Bessemer (i wneud dur) a melin rollo dur ac erbyn 1870 roedd saith trosglwyddydd mewn Gwaith Bessemer newydd a adeiladwyd hanner ffordd rhwng y melinau rholio a Victoria.

Pan ymddeolodd Darby yn 1873 ffurfiwyd cwmni newydd sef Cwmni Dur, Haearn a Glo Glyn Ebwy. Ar ôl 1873 roedd bob amser ffwrneisi'n chwythu yng Nglyn Ebwy a Victoria tan 1913. Yn 1936, adeiladwyd gwaith dur newydd gydag anogaeth y llywodraeth gan Richard Thomas & Co. Yn ddiweddarach fe newidiodd i Richard Thomas & Baldwins Ltd (1939) a'r Gorfforaeth Ddur Brydeinig (1970). Diffoddwyd ffwrneisi Victoria yn 1975 ond parhaodd y gwaith o wneud dur Tân Agored hyd diwedd y degawd hwnnw.

O wal y ffwrnais dychwelwch at y gylchfan. Trowch i'r chwith i barhau ar draws Traphont Newtown. Adeiladwyd y bwa bach gwreiddiol sy'n estyn dros yr afon Ebwy yn 1790, ac adeiladwyd y prif fwa yn 1813. Adeiladwyd y ddau gan Gwmni Gwaith Haearn Glyn Ebwy i gario lein rheilffordd preifat, wedi ei dynnu gan geffyl, yn cysylltu Sirhywi gyda Glyn Ebwy dros Ffordd Dramiau Cendl. Adeiladwyd y bont orllewinol o bren yn wreiddiol ond cafodd ei hail adeiladu mewn carreg yn 1859: fe gwmpodd y bont hon gan ladd dau ddyn a chafodd ei hail adeiladu eto'n 1861. Mae'r draphont nawr yn cario'r ffordd o ganol dref Glyn Ebwy i Newtown.



Ffwrneisi Blast Victoria

Dychwelwch i ochr ddwyreiniol y draphont a chymryd y llwybr cerdded sy'n rhedeg i lawr ochr ogleddol yr arglawdd sy'n agosáu at y draphont. Fe ddaw hwn â chi i lawr i'r dyffryn yn Pont-y-Gof yn agos at fythynnod rheilffordd a adeiladwyd gan Gwmni Rheilffordd a Chamlas Sir Fynwy yn gynnar yn y 1850au.

Rydych ar Steelworks Road yn awr ac unwaith eto'n dilyn cwrs Ffordd Dramiau Cendl (20). Ewch at y brif ffordd sy'n pasio dan draphont 1813. Trowch i'r dde yn syth i Steelworks Road – gan basio tai gweithwyr cynnar ar eich ffordd i'r gylchfan hirgron ger y Ganolfan Ddinesig. Yma, gwyrwch i'r dde i barhau ar hyd lein Ffordd Dramiau Cendl.

Bydd y ffordd lefel hon yn dod â chi'n ôl i 'Shop Row'.

Tua 100m heibio tafarn y Beaufort Arms ac ar ochr arall y ffordd, byddwch yn pasio arwyddbost Great Western Railway yn dangos y pellter o Newport. Gosodwyd hwn yma pan gymerodd y GWR berchnogaeth o Gwmni Rheilffordd a Chamlas Sir Fynwy yn 1880. Drws nesaf i'r Cendl Arms, fe welwch barc bach ble saif obelisc mawr o garreg tywod. Gosodwyd hwn yn 1873 yn gofeb i'r Parch. John Emlyn Jones – gweinidog, bardd a hanesydd nodedig. Mae'r ysgrifen ddwyieithog wedi gwisgo braidd ond mae plac pres modern yn dangos y geiriau'n llawn.



Mae Amgueddfa Gweithfeydd Glyn Ebwy wedi'i lleoli yn y Swyddfeydd Cyffredinol. Ar agor Llun-Gwener 10.00-4.30. Am ragor o fanylion, ffonier 01495 350941 neu ewch i

Er mwyn gadael inni wybod a fuoch chi'n mwynhau'r daith neu am ragor o fanylion cysyllter â ni ar 01495 355937 / 07968 472812 alyson.tippings@blaenau-gwent.gov.uk

